

Cofnodion Pwyllgor Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 13eg Medi, 2021 drwy gyfrwng Zoom

Presennol: Dwynwen (DP) (**Cadeirydd**) Iolo Roberts (IPR), Eryl (EO), Gwyn (GW), Steve (SW), Iona (IE), Iolo ap Gwynn (IAG), Raymond (RG), Eirwen (EW), Dewi (DH), Richard (RR)

Ymddiheuriadau: Dilys, Gareth

1.	<p><u>COFNODION</u></p> <p>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10^{fed} o Fai, fel rhai cywir.</p> <p>Yn codi</p> <p>Eitem 7 - Y COLEG CYMRAEG</p> <p>Cytunwyd y byddai IAG yn cadarnhau os oedd Gareth wedi cysylltu gyda'r Coleg i drafod hyn</p>	
2.	<p><u>MATERION ARIANNOL</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan DAP ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol</p> <p>a. Materion Cyffredinol</p> <p>Adroddodd bod gan y Clwb 272 o aelodau bellach a swm o £6,863 yn y banc ar 31ain Awst, 2021.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p> <p>b. Rhodd i dîm(au) achub.</p> <p>Adroddodd y galwyd allan ddau dîm achub i ddelio hefo digwyddiadau yn ymwneud ag aelodau'r Clwb dros yr haf. Nododd bod y Clwb wedi cyfrannu i'r timau achub mewn digwyddiadau tebyg yn y gorffennol a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried a oedd am wneud yr un fath yn yr achosion hyn.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. Gwneud rhodd o £250 i'r ddau dîm achub dan sylw (sef Tîm Achub Aberdyfi a Thîm Achub Gogledd Ddwyrain Cymru)</p> <p>ii. Os bydd casgliad yn cael ei wneud ymysg yr aelodau yn bresennol yn y Cyfarfod Blynyddol eleni i gydnabod gwaith y tîmau achub yng Nghymru, dylai'r ddau dîm achub y cyfeirir atynt yn i. uchod dderbyn yr arian</p> <p>c. Tâl Aelodaeth 2022</p> <p>Adroddodd fod incwm y Clwb yn is na'r gwariant eleni, ond gan fod swm sylweddol wrth gefn yn y cyfrif banc ar y funud ni chredai fod diben cynyddu'r tâl aelodaeth ar gyfer 2022.</p> <p>Cytunwyd argymhell i'r Cyfarfod Blynyddol fod y tâl aelodaeth ar gyfer 2022 yn aros yn £20 ac y dylid edrych ar y mater eto ar gyfer 2023</p>	

ch. Rhoddion er cof am Gareth Pierce

Adroddodd fod teulu Gareth wedi gofyn i unrhyw roddion er cof amdano fynd i'r Urdd a'r Clwb. Roedd yr arian wedi dechrau dod drwodd i'r Clwb ond doedd dim cyfanswm terfynol wedi ei gadarnhau eto.

Adroddodd EO mai un o'r syniadau gan y teulu oedd i'r Clwb ddefnyddio'r arian i hybu pobl ifanc i fynd allan i'r mynyddoedd drwy o bosib gydweithredu hefo'r Urdd. Roedd yn ymwybodol hefyd bod Gareth wedi casglu cerddi am fynyddoedd a bod cyhoeddi cyfrol o ddetholiad ohonynt er cof am Gareth yn bosibilrwydd.

Cytunwyd y byddai EO yn cynnal trafodaethau gyda theulu Gareth a swyddogion yr Urdd er mwyn canfod pa opsiynau fyddai yn bosib er mwyn defnyddio'r arian.

d. Teithiau

Argymhellodd os y byddai'r clwb yn trefnu teithiau preswyl ac yn aros mewn gwesty fel yn Crianlarich yn 2019 y byddai'n well pe byddai aelodau yn gwneud trefniant uniongyrchol gyda'r gwesty i archebu a thalu am le aros. Byddai hyn yn lleihau'r risg ariannol i'r Clwb . Ni argymhellai unrhyw newid i'r drefn o wneud blaendal am ddefnyddio hosteli ac ati.

Cytunwyd gofyn i EO holi a oedd y Clwb wedi derbyn gostyngiad gan y gwesty yn Crianlarich wrth archebu nifer o ystafelloedd gyda'i gilydd.

dd. Trefniadau Bancio.

Adroddodd fod banc y Clwb, HSBC, wedi rhoi rhybudd y bydd yn codi ffi o £60 y flwyddyn am bob cyfrif a ffi ychwanegol o 40 ceiniog yr un am drafodion o Dachwedd 2021 ymlaen. Credai y dylid chwilio am fanc arall a fyddai'n darparu cyfrif yn cynnig bancio rhad ac am ddim i glybiau. Gellid hefyd chwilio am fanc fyddai'n cynnig gwasanaeth Cymraeg ac yn caniatáu bancio ar y we/ffôn i hwyluso trefniadau. Gofynnodd i'r Pwyllgor ymddiried y penderfyniad iddi mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, y Trysorydd Cynorthwyol a'r Ysgrifennydd Cyffredinol.

Cytunwyd awdurdodi'r Trysorydd i weithredu ar y llinellau a amlinellwyd ganddi uchod.

e. Sefyllfa treth/rhodd cymorth

Adroddodd er nad oedd modd adennill rhodd cymorth ar dâl aelodaeth, roedd modd ei adennill ar roddion i'r Clwb (gyda rhai amodau). Er mwyn hwyluso hyn i'r dyfodol roedd wedi gwneud cais i CThEM (HMRC) gofrestru'r Clwb ar eu systemau. Roedd yn dal i ddisgwyl ateb ganddynt.

Cytunwyd nodi'r wybodaeth

3. CYNLLUNIO RHAGLEN WEITHGAREDDAU'R CLWB

Adroddodd EO ar y materion canlynol

a. Digwyddiadau a damweiniau ar deithiau diweddar

Cafwyd diweddariad ar y digwyddiadau a damweiniau a ddigwyddodd ar rai o deithiau'r Clwb yn ystod yr haf. Cadarnhaodd IPR fod y Cwmni Yswiriant wedi ei hysbysu am y digwyddiadau.

Ystyriwyd yr angen i'r Clwb gael trefn ffurfiol o gofnodi damweiniau ac os oes gofynion cyfreithiol ar y Clwb i wneud hynny.

Adroddodd DP bod gan y CMP adnodd ar eu gwefan i alluogi clybiau i gofnodi digwyddiadau

Cytunwyd y byddai GW yn gwneud ymholiadau gydag Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn sefydlu a oes unrhyw ddyletswydd cyfreithiol ar grwpiau gwirfoddol o safbwynt cofnodi damweiniau ac ati.

Adroddwyd hefyd fod problemau wedi codi gyda'r digwyddiad ar y Berwyn pan yn cysylltu â'r Gwasanaeth Brys o safbwynt cadarnhau lleoliad y digwyddiad. Deallwyd fod Sian Shakespear a oedd yn ceisio cysylltu â hwy wedi cael trafferthion ac nad oedd cyfeirnod grid yn ddigonol iddynt.

Cytunwyd y dylid annog aelodau'r Clwb i wneud defnydd o appiau fel "What3words" a chofrestru eu rhifau ffôn gyda'r Gwasanaethau Achub a allasai fod o gymorth mewn unrhyw argyfwng.

b. Teithiau'r Clwb yn y De

Adroddodd DH fod aelodau'r De yn awyddus i drefnu taith yn ardal Cydweli, sef ardal leol Gareth, a bod Bruce Lane yn gofalu am hyn. Unwaith bydd wedi derbyn y manylion bydd yn cysylltu ag EO i drafod ei chynnwys ar y rhaglen. Gellid ei hystyried yn daith goffa Gareth. Roedd Gareth wedi bod yn awyddus hefyd i weld mwy o gyd-gysylltu rhwng aelodau'r Gogledd a'r De ac fe soniodd am drefnu cael penwythnos breswyl i ganiatâu hyn (o bosib yn gysylltiedig â'r Cyfarfod Blynyddol).

Cytunwyd diolch i DH am y wybodaeth a nodi y gellid ystyried trefnu penwythnos o'r fath ar gyfer 2022

c. Asesiad Risg

Cyflwynodd ddogfen *Canllawiau i Arweinyddwyr Teithiau* wedi ei haddasu i gynnwys canllawiau i gynorthwyo arweinyddion i asesu risg ar eu teithiau yn ogystal â nodi a chadarnhau'r hyn oedd yn ddisgwyliedig eisoes gan arweinyddwyr gweithgareddau.

Cytunwyd derbyn y newidiadau i'r ddogfen.

ch. Rheolau Cofid

Adroddodd am y cyfyngiad o ddeunaw roedd y Clwb wedi ei osod ar y nifer a allai fynychu teithiau yn sgil rheolau Cofid Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaharddiadau bellach wedi eu codi ac ni welai unrhyw ddiben i barhau â'r cyfyngiad.

Roedd wedi ceisio trefnu taith bob penwythnos yn y Gogledd ac roedd am geisio cadw at y drefn hon cyn belled â bod arweinyddion ar gael i'w trefnu a'u harwain.

Cytunwyd

i. na ddylid gosod cyfyngiad niferoedd ar deithiau'r Clwb bellach oni bai fod arweinydd taith

	<p>benodol yn teimlo bod rhesymau dilys tros gael un e.e taith sgrialu heriol ac ati</p> <p>ii. dylid ceisio parhau i gael un daith yn wythnosol yn y Gogledd cyn belled â bod digon o aelodau yn cynnig teithiau ac yn fodlon i'w harwain</p>	
<p>4.</p>	<p><u>CYFARFOD BLYNYDDOL 2021</u></p> <p>Adroddodd IPR bod trefniant wedi ei wneud i gynnal y Cyfarfod Blynyddol yng Ngwesty'r Oakley Arms ym Maentwrog ar nos Sadwrn 13eg Tachwedd, 2021.</p> <p>Cytunwyd</p> <p>i. cadarnhau y trefniant a nodir uchod ar gyfer cynnal y Cyfarfod Blynyddol</p> <p>ii. gofyn i DP edrych i mewn i'r posibilrwydd o alluogi aelodau nad oedd yn dymuno bod yn bresennol yng Ngwesty'r Oakley i fod yn rhan o'r cyfarfod drwy gyfrwng Zoom</p> <p>iii. na ddylid cael siaradwr gwadd yn y cyfarfod eleni er mwyn rhoi cyfle i aelodau gael cymdeithasu.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Eisteddfod Genedlaethol 2022 – Darlith Flynyddol</u></p> <p>Adroddodd DP bod y trefniadau a wnaed i gynnal y ddarlith ym Mhabell y Cymdeithasau yn yr eisteddfodau a ohiriwyd yn 2019 a 2020 yn Nhregaron ar y dydd Gwener am 11am wedi eu trosglwyddo i Eisteddfod 2022. Byddai'n cysylltu gyda Caradog Jones i gael cadarnhad ei fod yn dal ar gael i roi'r ddarlith.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>MATERION CMP</u></p> <p>Adroddodd SW ar drafodaethau rhai o gyfarfodydd diweddar cangen leol y CMP. Adroddodd hefyd ei bod yn amlwg fod Gareth Pierce wedi bod yn uchel iawn ei barch gyda'r CMP a bod y Cadeirydd newydd yn awyddus i yrru rhodd i'r teulu i gydnabod hynny.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i SW am ei adroddiad.</p>	
<p>7.</p>	<p><u>Y BARTNERIAETH AWYR AGORED</u></p> <p>Adroddwyd gan RG bod cwrs cymorth cyntaf wedi ei gynnal bellach yn y gogledd a bod 12 o aelodau wedi mynychu a chwblhau'r cwrs yn llwyddiannus. Roedd y Bartneriaeth nawr am drefnu cwrs cyffelyb yn y de ar gyfer aelodau. Roedd 7 aelod hyd yma am fynychu tra bod lle i 12. Os byddai llefydd gwag ar y cwrs byddai'r Bartneriaeth yn cynnig llefydd i unigolion oedd ddim yn aelodau. Wrth gwrs ni fyddai'r Clwb yn darparu unrhyw gymhorthdal ar eu cyfer.</p> <p>Cytunwyd nodi'r wybodaeth a diolch i RG am ei waith.</p>	

<p>8.</p>	<p><u>AmazonSmile</u></p> <p>Adroddodd IPR fod cwmni Amazon wedi anfon llythyr i'r Clwb ynglŷn â'u cynllun AmazonSmile. Golygai'r cynllun, gan fod y Clwb bellach wedi cofrestru fel elusen ei fod yn agored i dderbyn rhoddion. Gallai cwsmeriaid, wrth archebu nwyddau ar eu gwefan, nodi y dymunent i'r cwmni wneud rhodd o werth 0.5% o unrhyw bryniant i'r Clwb. Roedd y llythyr yn nodi'r amodau ynghlwm ag ymuno a'r cynllun.</p> <p>Cytunwyd na ddylai'r Clwb fod yn rhan o gynllun a oedd yn annog unigolion i archebu nwyddau oddi ar wefan cwmni rhyngwladol enfawr.</p>	
<p>9.</p>	<p>OFFER</p>	
	<p>a. Diffibrilwyr</p> <p>Adroddodd EO y codwyd y posibilrwydd o'r Clwb archebu diffibrilwyr a fyddai ar gael i'w cario ar deithiau i'w defnyddio os byddai eu hangen mewn argyfwng.</p> <p>Roedd pawb yn gytûn fod y syniad o gael y diffibrilwyr yn un da ond bod angen mwy o wybodaeth am ba fathau oedd ar gael ac os oeddynt yn ddigon ysgafn i'w cario. Roedd eu cost a faint fyddai angen eu prynu hefyd yn ystyriaeth. Byddai hefyd angen ystyried o ddifri os prynid rhai sut y gellid sicrhau y byddent ar gael ar gyfer teithiau mewn gwahanol ardaloedd. Gallasai hyn fod yn heriol iawn.</p> <p>Cytunwyd gofyn i EO ganfod mwy o wybodaeth ynglŷn â pha fathau o ddiffibrilwyr sydd ar gael ar gyfer y pwrpas yma.</p> <p>b. Gwarchodfeydd Grŵp</p> <p>Adroddodd EO bod gan y Clwb bellach oddeutu 6 o warchodyddion grŵp wedi eu dosbarthu i aelodau a oedd yn arwain teithiau yn gyson gyda'r disgwyl eu bod yn eu cario pan yn arwain. Gwyddai am hyd at 12 o aelodau eraill oedd yn arwain teithiau yn rheolaidd y gallai'r Clwb gynnig ac archebu gwarchodwr grŵp iddynt</p> <p>Cytunwyd dylid symud ymlaen â hyn.</p>	
<p>10.</p>	<p><u>CYFARFOD NESAF Y PWYLLGOR</u></p> <p>Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal am 7.30pm, nos Lun 10fed o Ionawr 2022 drwy gyfrwng Zoom.</p>	